**Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy**

**13 Hydref 2021**

Yn bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Dr M Havard, Dr R Plummer, Cynghorydd M Williams a’r Cynghorydd S Yelland.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am - 11.30am)

**1. Ethol Cadeirydd**
**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd M James yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**
**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd K Doolin yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd K Doolin.

**4. Datgan Buddiannau**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

**5. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2021.

**6. Materion yn Codi**
Cyfarfodydd y Pwyllgor SDF (Cofnod 5c)
Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog Cyllido a Grantiau am drefnu'r ymweliad safle, a gynhaliwyd yn lle cyfarfod y Pwyllgor fis Gorffennaf. Dywedwyd eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i weld drostynt eu hunain rai o'r prosiectau oedd wedi derbyn cyllid yn flaenorol ac i gwrdd â'r gwirfoddolwyr brwd ar bob un o'r safleoedd. Atebodd y swyddog bod datganiad i’r wasg wedi’i gyhoeddi yn dilyn yr ymweliad, a’r gobaith oedd trefnu ymweliad safle arall yn 2022.

**Nodwyd.**

**7. Adroddiad Ariannol**

Roedd adroddiad y Swyddog Cyllido a Grantiau yn rhoi diweddariad ar y prosiectau oedd wedi derbyn grant SDF yn flaenorol ac yr oedd ymrwymiad ariannol yn dal i fod ar eu cyfer, ynghyd â rhestru'r prosiectau hynny oedd wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf. Mynegodd yr Aelodau bryder bod gan rai prosiectau hŷn hawliadau grant oedd yn dal heb eu cyflwyno, a chwestiynwyd a oedd hyn yn effeithio ar gyllidebu wrth symud ymlaen. Atebodd y swyddog bod nifer o hawliadau wedi'u cyflwyno ers ysgrifennu ei hadroddiad, a bod y prosiectau bellach yn eu camau olaf ac y byddant o bosibl wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod nesaf. Cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid bod cyllid grant sydd wedi'i ymrwymo yn cael ei gadw mewn cronfa wrth gefn a glustnodwyd.

Dywedwyd bod £100,000 ar gael i'w ddosbarthu mewn grantiau gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod 2021/22 a £90,000 yn ychwanegol o gronfa Llywodraeth Cymru Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy oedd yn golygu bod cyfanswm y grantiau oedd ar gael yn 2021/22 yn £190,000. Dywedwyd bod £51,271 o grant wedi'i ddyfarnu yn y flwyddyn gyfredol, sy'n golygu bod £138,729 yn parhau i fod ar gael i'w ddyfarnu.

**Nodwyd.**

**8. Eithrio'r cyhoedd**

Dywedwyd, wrth drafod y ceisiadau, y gallai gwybodaeth gael ei rhannu oedd yn bersonol neu'n fasnachol sensitif, a gofynnwyd felly i'r cyhoedd gael ei eithrio o'r cyfarfod.

**Penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**9. Ceisiadau i'w Hystyried**

Atgoffwyd y Pwyllgor bod yr Awdurdod yn eu cyfarfod fis Mehefin 2020 wedi cytuno i newid ffocws y Gronfa i gefnogi prosiectau a arweinir gan y gymuned oedd yn cyfrannau at leihau'r allyriadau carbon ac yn helpu i ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Roedd pedwar categori i geisiadau:

a. Gosod cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn adeilad cymunedol
b. Menter i hyrwyddo gostyngiad mewn allyriadau carbon mewn trafnidiaeth
c. Gosod cyfleuster cymunedol sy'n lleihau gwastraff
d. Unrhyw fenter arall i leihau carbon yn y gymuned.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn amlinellu pump cais a wnaed i'r gronfa ers y cyfarfod blaenorol:

| Math o Brosiect | Cyfeirnod | Sefydliad | Y cyllid a geisir |
|---|---|---|---|
| A | SDF/102021/1 | Cymdeithas Gymunedol a Chwaraeon Arberth a'r Cylch | 9,932 |
| A | SDF/102021/2 | Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian | 9,560 |
| A | SDF/102021/3 | Pwyllgor Pentref yr Eglwys Lwyd | 9,000 |
| D | SDF/102021/4 | Awel Aman Tawe | 10,080 |
| D | SDF/102021/5 | Cydnerthu Cymunedol Ffynnone – Gogledd Ddwyrain Sir Benfro | 22,843 |
| | | **Cyfanswm y cyllid a geisir** | **61,415** |

Ystyriwyd pob cais yn fanwl yn erbyn y templed sgorio ac yn dilyn trafodaethau **penderfynwyd**:

(i) rhoi swm llawn y cyllid y gofynnwyd amdano i'r ceisiadau canlynol, cyn belled ag y cedwir at amodau arferol y grant:

a) SDF/102021/1 Cymdeithas Gymunedol a Chwaraeon Arberth a'r Cylch
b) SDF/102021/2 Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian – gydag amod ychwanegol na ddylid rhyddhau unrhyw arian nes bod y prosiect a ymgymerir gan y sefydliad ar hyn o bryd (SDF / 012021/2) wedi'i gwblhau.
c) SDF/102021/3 Pwyllgor Pentref yr Eglwys Lwyd
d) SDF/102021/4 Awel Aman Tawe

(ii) gwrthod y cais canlynol:
SDF/102021/5 Cydnerthu Cymunedol Ffynnone – Gogledd Ddwyrain Sir Benfro. Roedd pryderon bod y cais yn rhy uchelgeisiol ac eang ar gyfer grŵp mor newydd, ac awgrymwyd y dylai'r Grŵp geisio cyllid ar gyfer prosiect peilot llai yn y lle cyntaf, gyda'r posibilrwydd o gais pellach yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach. Mynegwyd pryderon yn ogystal ynghylch hyd prydlesi, cyllid cyfatebol oedd wedi'i gadarnhau, a threfniadau llywodraethu.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2022 heb eu diwygio.